DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru**
DYDDIAD	**21 Awst 2018**
GAN	**Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**

Ym mis Mawrth 2014, lansiwyd y Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar y cyd. O dan y trefniadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd â Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddwywaith y flwyddyn i drafod sefyllfa gyffredinol pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth y GIG. Maent yn ystyried ystod eang o wybodaeth i nodi unrhyw broblemau er mwyn helpu i'w datrys yn effeithiol.

Mae'r datganiad hwn yn rhoi gwybod i Aelodau'r Cynulliad am ganlyniad y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2018.

Mae pedair lefel uwchgyfeirio yn y fframwaith:

- Trefniadau arferol
- Monitro uwch
- Ymyrraeth wedi'i thargedu
- Mesurau arbennig.

O ganlyniad i'r trafodaethau, cytunodd Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y bydd yr holl sefydliadau'n parhau ar eu lefel uwchgyfeirio bresennol fel y'i nodir yn y tabl yn atodiad 1.

Rwyf eisoes wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

O ran y tri sefydliad sydd ar lefel ymyrraeth wedi ei thargedu, cafwyd cynnydd yn ystod y ddeuddeg mis diwethaf, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cyrraedd cerrig milltir o ran eu perfformiad. O ran Bwrdd Hywel Dda, y broblem o hyd yw'r broblem cyllid, er y bydd yr adolygiad llinell sylfaen diweddar o gymorth i'r sefydliad.

Cafodd Prif Weithredwr newydd ei benodi i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, a bu newidiadau i'r Tîm Gweithredol. Bu gwella graddol o ran perfformiad, ac

rwy'n disgwyl i hynny barhau. Rwy'n cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud ar draws y tri sefydliad, ac mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda nhw.

Rwy'n parhau i ddisgwyl gweld gwelliant ym mhob un o'r sefydliadau hyn, a byddwn yn dal i fonitro eu cynnydd drwy drefniadau atebolrwydd ffurfiol a thrafodaethau â swyddogion.

Atodiad 1

Sefydliad	Statws Blaenorol	Statws Presennol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Ymyrraeth wedi'i thargedu	Ymyrraeth wedi'i thargedu
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Trefniadau arferol	Trefniadau arferol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Mesurau arbennig	Mesurau arbennig
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Ymyrraeth wedi'i thargedu	Ymyrraeth wedi'i thargedu
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	Trefniadau arferol	Trefniadau arferol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Ymyrraeth wedi'i thargedu	Ymyrraeth wedi'i thargedu
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Trefniadau arferol	Trefniadau arferol
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	Trefniadau arferol	Trefniadau arferol
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	Trefniadau arferol	Trefniadau arferol
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Trefniadau arferol	Trefniadau arferol

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Cynulliad yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny